




# Lleisio barn ar dy addysg



Ymwneud yn fwy -  
canllaw ar gyfer pobl ifanc  
i iechyd a llesiant



@plantynghymru

[www.plantynghymru.org.uk](http://www.plantynghymru.org.uk)





## Lleisio barn ar dy addysg

*“Dy addysg yw beth sydd angen arnat ti i symud ymlaen, i gyflawni dy fwriadau. Dy addysg yw popeth” Person ifanc â phrofiad o ofal*

Canllaw addysg yw hwn ar gyfer pobl ifanc sydd mewn gofal ledled Cymru. Bydd pob person ifanc yn cael profiad gwahanol yn yr ysgol, ond mae’n bwysig bod pawb ohonoch chi’n cael cefnogaeth yn yr ysgol i fod y gorau gallwch chi fod.

Bydd y canllaw yma’n sôn wrthyt ti am dy hawliau i gael addysg ac am y gyfraith yng Nghymru. Bydd yn dweud wrthyt ti beth yw cyfarfod cynllunio addysg bersonol a sut mae cael mwy o gyfle i roi dy farn.

Mae hefyd yn cynnwys taflen waith ddefnyddiol gyda chwestiynau fydd yn dy helpu i ddechrau meddwl beth hoffet ti ddweud mewn unrhyw gyfarfodydd ac unrhyw beth hoffet ti newid.



Os bydd angen help neu gefnogaeth, mae adran gyngor tua diwedd y canllaw.

## Geiriau allweddol a beth maen nhw’n ei olygu

**Athro dynodedig** - Athro sy’n gorfod gwneud yn siŵr dy fod ti’n cael cefnogaeth i gyflawni dy botensial yn dy addysg. Mae disgwyl y bydd dy athro dynodedig yn deall rhai o’r problemau mae plant mewn gofal yn eu hwynebu. Dylet ti gael gwybod pwy yw dy athro dynodedig yn yr ysgol a sut mae cysylltu â fe/hi os bydd angen.

**Eiriolydd** - Eiriolydd yw rhywun sy’n gallu dy gefnogi di i fynd i gyfarfod neu godi llais am unrhyw beth sy’n bwysig i ti. Mae eiriolydd yn annibynnol – sy’n golygu bydd e/hi ddim yn gweithio i’r ysgol na’r gwasanaethau cymdeithasol.

**Cynllun addysg personol (CAP yn fyr)** - cynllun ysgrifenedig ar gyfer dy addysg a’th hyfforddiant, pa nodau rwyf ti’n gweithio tuag atyn nhw, a sut mae pethau’n mynd.





## Beth mae'r gyfraith yn dweud?

Mae gen ti hawl i gael addysg. Mae Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan bod gen ti hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

Mae Erthygl 12 o CCUHP yn dweud bod gen ti hawl i roi barn ar beth rwyd ti'n meddwl ddylai ddigwydd.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc gyflawni eu nodau. Dylai pawb gael breuddwydion a chyfleoedd. Rwyd ti'n gallu darllen mwy am gynllun y llywodraeth i gefnogi addysg plant sydd mewn gofal yma.



Yng Nghymru mae gennym ni gyfraith o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**.

Yn ôl y gyfraith yma mae rhaid i bob awdurdod lleol wneud yn siŵr bod plant yn cael **cyfleoedd i gyflawni yn eu haddysg**. Os wyt ti mewn gofal bydd gen ti dy gynllun addysg dy hun, sydd hefyd yn cael ei alw'n gynllun addysg personol (neu CAP). Mae dy CAP yn gofnod o'r addysg a'r hyfforddiant rwyd ti'n cael.

Dylai ddweud beth sydd angen digwydd er mwyn i ti fedru **cyflawni dy botensial**.



## Cyfarfod i lunio'r cynllun addysg personol (CAP)

Cyfarfod rheolaidd yw'r CAP i weld sut mae pethau'n mynd yn yr ysgol. **Dy gyfarfod di yw e**, ac mae gen ti hawl i fod yn bresennol a rhoi dy farn ar beth rwy't ti'n meddwl ddylai ddigwydd. Dyma dy gyfle i gwrdd â'th athrawon, dy weithiwr cymdeithasol, dy ofalwyr maeth a gweithwyr eraill i drafod sut mae pethau'n mynd a beth sydd angen digwydd i'th cefnogi di'n well. Mae hefyd yn gyfle i drafod dy opsiynau ar gyfer addysg ôl-16.

Yn ddelfrydol, dylai dy gyfarfod CAP ffitio i mewn gyda'th wersi, ac rwy't ti'n gallu mynd ag eiriolydd gyda thi – os wyt ti'n teimlo byddet ti'n hoffi i rywun siarad ar dy ran.



Byddi di'n gallu siarad â'th **eiriolydd yn gyfrinachol** – mae hynny'n golygu na fydd dy wybodaeth di'n cael ei rhannu ond os wyt ti eisiau i hynny ddigwydd.

Ond os bydd dy eiriolydd neu unrhyw weithiwr proffesiynol arall yn poeni am dy ddiogelwch, **efallai bydd rhaid iddyn nhw ddweud wrth rywun** i wneud yn siŵr dy fod ti'n ddiogel, ond byddan nhw bob amser yn ceisio siarad â thi gynta, cyn gwneud hynny.

## Beth sy'n gwneud cyfarfod CAP da?

*"Byddai'n dda cael adran ar ddiwedd y cyfarfod sy'n edrych ar nodau a dyheadau tymor hir y person ifanc."* - Person ifanc â phrofiad o ofal

*"Dylech chi gael digon o rybudd fel bod pobl ifanc yn gallu paratoi, er enghraifft: meddwl am beth maen nhw eisiau dweud neu ydyn nhw eisiau i rywun fynd gyda nhw."* - Person ifanc â phrofiad o ofal



## Some questions to think about if you are not sure:

- Pa bethau sy'n mynd yn dda yn yr ysgol?
- Oes yna unrhyw beth allai fod yn well yn yr ysgol?
- Oes angen help unrhyw un arnat ti i wella pethau? Pwy yw'r person yna?
- Beth hoffet ti gyflawni yn y misoedd nesa? (Gallai fod yn rhywbeth bach?)
- Unrhyw beth arall pwysig rwyt ti eisiau dweud?



## Fy nghyfarfod CAP – beth rydw i eisiau dweud

Rwyt ti'n gallu defnyddio'r dudalen yma i ysgrifennu nodiadau/syniadau ar gyfer dy gyfarfod yn yr ysgol

A large, empty rectangular box with a yellow border, intended for writing notes or ideas.

## Beth sy'n gwneud i ti deimlo bod rhywun yn gwrando arnat ti ac yn dy gynnwys?

*"Os yw athrawon yn treio deall beth rydyn ni'n mynd trwyddo fe tu allan i'r ysgol."*

*"Roedd cael lle diogel i ymlacio yn help mawr i fi pan oeddwn i angen hynny."*

*"Mwy o hyblygrwydd o ran opsiynau, dylai'r un gwerth gael ei roi ar gyrsiau TGAU a BTEC, ddyle fe ddim bod yn beth drwg i ganolbwytio ar bynciau mwy ymarferol os dyna yw dy gryfder di!"*

*"Fe ges i athro oedd yn barod i wneud mwy na'r disgwyl, yn gwirio mod i'n iawn, yn cefnogi fi, ac roedd hynny'n help mawr. Byddai wedi bod yn fwy anodd heb hynny."*

*"Mynd i'r cyfarfodydd a chael rhoi barn – fe wnaeth hynny i fi deimlo mod i'n cael fy nghynnwys yn fwy."*



### Camau ymlaen

Os wyt ti eisiau cyngor neu gefnogaeth, gallet ti:

- Siarad â'th athrawon, dy ofalwyr, dy weithiwr cymdeithasol neu dy swyddog adolygu annibynnol (IRO)
- Siarad â'th athro dynodedig neu rywun rwyt ti'n trystio yn yr ysgol
- Siarad â chwnselydd yr ysgol – mae'n bosib bydd dy athro dynodedig yn gallu helpu i drefnu hynny
- Ffonio Llinell Gymorth Meic – os byddai'n well gen ti sgwrsio/siarad â rhywun ar-lein, gallet ti ffonio Meic ar 0808 80 23456/meiccymru.org/tecst: 84001. Gwasanaeth am ddim yw hwn i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol – rwyt ti'n gallu ffonio, sgwrsio neu decstio ar-lein rhwng 8.00am a 12.00am bob dydd. Gallan nhw hefyd dy helpu i gael eiriolydd os hoffet ti gael un.